

Rhannu Gweinidogaeth

Shared Ministry

Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol

Commission of the Covenanted Churches

Rhagair gan Esgob Gregory K. Cameron

Introduction by Bishop Gregory K. Cameron



Mynegai	Tudalen	Index	Page
Rhagair	4	Introduction	5
Adnewyddu	8	Renewing	9
Eciwmeniaeth		Ecumenism	
Ein Gwahoddiad	10	Our Invitation	11
Sylfaen	20	Theological	21
Ddiwinyddol		Foundations	
Cyd Destun	24	Context	25

1. Rhagair

Yn 1975, cymerodd yr eglwysi yng Nghymru o bum traddodiad gwahanol - yr Anglicanaidd, y Bedyddwyr, y Methodistiaid, y Presbyteriaid, a'r Eglwys Ddiwigiedig Unedig – y cam mawr o gyfamodi gyda'i gilydd i weithio tuag at greu Eglwys Unedig yng Nghymru.

Peidiwn byth ag anghofio'r rhesymau grymus pam y gwnaethant hyn. Yn gyntaf, ewylllys datganedig Crist yw i'w braidd oll fod yn un (John 17.21). Nid ychwanegiad dewisol yw eciwmeniaeth, na mesur brys i ddygymod â dirywiad – dyma beth mae Crist am i'w Eglwys wneud. Dylem fod yn ufudd i alwad Duw.

Yn ail, sut gallwn ni mewn difrif bregethu i'r byd am faddeuant a chymodi yng Nghrist os byddwn yn modelu rhaniad a dadl yn ein milltir sgwâr ein hunain? Mae rhaniadau'r canrifoedd, rhwng y Catholigion a'r Protestaniaid, rhwng yr Eglwys a'r Capel, rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn dâl i effeithio ar genhadaeth Gristnogol heddiw.

Yn drydydd, mae egwyddor Lund, a fynegir gan Gyngor Eglwysi'r Byd yn 1952, yn gwneud synnwyr: y dylai eglwysi weithredu gyda'i gilydd ym mhob mater ac eithrio'r rhai lle mae gwahaniaethau dwfn o argyhoeddiad yn eu gorfodi i weithredu ar wahân. Mae hwn yn gynnig eithaf cymedrol pan ddarllenwch y cymhwyster, ond o ran stiwardiaeth, ac o ran effaith, gallwn wneud llawer mwy gyda'n gilydd nag a allwn ar wahân.

1. Introduction

In 1975, the churches in Wales from five different traditions - the Anglican, the Baptist, the Methodist, the Presbyterian, and the United Reformed – took the major step of covenanting together to work towards the creation of a Uniting Church in Wales.

Let us never forget the compelling reasons why they did this. First, it is the express will of Christ that his flock shall be one (John 17.21). Ecumenism is not an optional extra, or an emergency measure to cope with decline – it is what Christ wants of his Church. We should be obedient to God's call.

Secondly, how can we possibly preach to the world about forgiveness and reconciliation in Christ if we model division and argument in our own backyard? The divisions of centuries, between Catholic and Protestant, between Church and Chapel, between Welsh and English, still impacts on Christian mission today.

Thirdly, the Lund Principle, articulated by the World Council of Churches in 1952, makes sense: that churches should act together in all matters except those in which deep differences of conviction compel them to act separately. This is quite a modest proposal when you read the qualification, but in stewardship terms, and in impact terms, we can do a whole lot more together than we can apart.

Felly, faint sydd wedi ei gyflawni? Byddai'n hawdd dweud bod y Cyfamod wedi bod yn fethiant. Credai'r llofnodwyr y gallai Eglwys Unedig gael ei chyflawni yn yr ugeinfed ganrif, ond wedi methiant tri chynllun cymodi, mae'r pum traddodiad cyfamodol yn dal i ddilyn eu trywydd gwahanol ar y rhan fwyaf o faterion.

Mae'r gwirionedd yn fwy cynnil. Yr ydym wedi mynd o fod yn ddieithriaid i gyfeillion, ac, yn wir, o fod yn "holier na thou" i gydnabod ein bod oll yn perthyn i Grist. Mae'r Cyfamod yn cynnig llawer iawn o botensial ar gyfer cydweithredu sydd ddim ond wedi'i gydnabod yn rhannol.

Bwriad y ddogfen hon yw atgoffa'r holl Eglwysi Cyfamodol am yr hyn y gellir ei wneud – nid os na phryd – ond yr hyn a ganiateir o dan yr ymrwymiad presennol i'r cyfamod. Gobaith Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yw y gallwn, drwy egluro hyn, annog eglwysi lleol i gymryd rhan, i rannu, ac efallai hyd yn oed i freuddwydio, ac i ail-ddatgan yr ymrwymiad i'w gilydd fel y mae Crist wedi ei ymrwymo i ni.

+Gregory K Cameron

Esgob Llanelwy

Cadeirydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru.

So how have we fared? It would be easy to say the Covenant has been a failure. The founding signatories thought a Uniting Church could be achieved in the twentieth century, but three failed schemes of reconciliation later, the five covenanting traditions still go their separate ways on most issues.

The truth is more subtle. We have gone from being strangers to friends, and, if truth be told, from being “holier than thou” to recognising that we all belong to Christ. And the Covenant offers a great deal of potential for co-operation which has only been partly recognised.

This document is designed to remind all the covenanting churches about what can be done – not if or when – but what is permitted under the current commitment to the Covenant. It is the hope of the Commission of the Covenanted Churches that by spelling this out, we can encourage local churches to engage, to share, and maybe even to dream, and to re-centre ourselves as committed to one another as Christ is committed to us.

+Gregory K Cameron

Bishop of St Asaph

Chair of the Commission of the Covenanted Churches in Wales.

2. Adnewyddu Eciwmeniaeth

Mae'r memorandwm hwn yn ystyried y posibiladau sydd eisoes yn bodoli parthed rhannu gweinidogaeth ymhlith yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru ac yn gosod allan Ganllawiau ar gyfer rhannu gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau yn eu plith. Gwêl y Comisiwn hyn fel modd allweddol o ddyfnhau'r berthynas gyfamodol ymhlith yr eglwysi a chryfhau eu partneriaeth mewn cenhadaeth a thystiolaeth yng Nghymru.

Mae gan yr holl eglwysi cyfamodol reolau sy'n caniatáu rhannu gweinidogaeth yn ecwmenaidd, a chyfnewid gweinidogaeth. Yng ynghyd-destun yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, sylfaenir y cyfnewid a'r rhannu hyn ar y caniatâd a roddwyd eisoes i weinidogion ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau yn un o'r Eglwysi Cyfamodol arfer yr un weinidogaeth o fewn un neu ragor o'r Eglwysi Cyfamodol eraill mewn sefyllfa ecwmenaidd leol benodol.

Mae cydnabyddiaeth o'r fath yn seiliedig ar ddealltwriaeth o weinidogaeth ym mhob un o'r Eglwysi Cyfamodol unigol fel y datblygodd yn y blynyddoedd ers cytuno'r Cyfamod tuag at Undeb Gweledig yng Nghymru yn 1975.

2. Renewing Ecumenism

This document explores the extent of current possibilities for the exchange of ministry among the Covenanted Churches in Wales and sets out Guidelines for shared ministry of Word and Sacraments among them. The Commission sees this as an important approach to deepening the covenant relationship among the churches and strengthening their partnership in mission and witness within Wales.

Each of the Covenanted Churches has regulations which permit shared ecumenical ministry, and the exchange of ministry. Within the context of the Covenanted Churches in Wales, this exchange and sharing of ministry is founded upon the permission already given for ordained ministers of the Word and Sacraments in one of the Covenanted Churches to exercise the same ministries for which they are authorised in their home church within one or more of the other Covenanted Churches in a particular local ecumenical setting.

Such affirmation is based on the understanding of ministry within each of the Covenanted Churches as developed in the years following the making of the Covenant for Visible Unity in Wales in 1975.

3. Ein Gwahoddiad

Mae Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn gwahodd yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru i adnewyddu eu hymrwymiad i rannu gweinidogaeth, trwy eu strwythurau llywodraethol priodol:

Yn benodol, 'rydym yn eich gwahodd:

- i ddathlu ein galwad gyffredin, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, i genhadaeth, tystiolaeth a gwasanaeth;
- i gadarnhau bod gennym weledigaeth o weinidogaeth y Gair a Sacramentau sy'n gwasanaethu'r alwad genhadol hon i'r Eglwys;
- i gytuno, er nad oes, o angenrheidrwydd, gytundeb llawn diwinyddol yn ein plith ar natur a phwrpas gweinidogaeth, fod dealltwriaeth ddigonol ynglŷn â gweinidogaeth ddilys y Gair a'r Sacramentau rhwng yr Eglwysi Cyfamodol, fel y mae'r Cyfamod yn ei gydnabod, i'w galluogi i symud ymlaen gyda'i gilydd tuag at alluogi rhannu gweinidogaeth y Gair a'r Sacramentau;

3. Our Invitation

The Commission of the Covenanted Churches invites Churches within the Covenant in Wales to renew their commitment to sharing ministry, through appropriate governance and other structures:

Specifically, we invite you:

- to celebrate our common calling, locally, nationally and globally, to mission, witness and service;
- to affirm we have a shared vision of the ministry of Word and Sacraments as serving this missional vocation of the Church;
- to agree that, although there may not be full theological and ecclesiological agreement among us on the nature and purpose of ministry, there is already sufficient recognition between us of the true ministry of Word and Sacraments within all the Covenanted Churches, as acknowledged in the Covenant, to enable us to move forward together towards enabling the shared ministry of ordained ministers of Word and Sacraments;

I gytuno ar y canlynol fel agweddau allweddol ar gynllun o'r fath:

- bydd gweinidogion ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau sy'n cael eu cydnabod yn llawn gan eu heglwysi eu hunain yn cael eu galluogi i rannu gweinidogaeth ar draws yr Eglwysi Cyfamodol eraill mewn cyd-destun ecwmenaidd lleol, yn unol â rheoliadau presennol. Mewn geiriau eraill, yr egwyddor allweddol yma yw y byddai gweinidog a gydnabyddir i wasanaethu o fewn un enwad yn cael ei d/derbyn a'i ch/gydnabod gan yr holl bartneriaid ecwmenaidd eraill (fel sy'n addas i'r cyd-destun lleol) ar gyfer gwasanaeth yn y sefyllfa ecwmenaidd leol benodol;
- cymell cytundebau cyfnewid ffurfiol ymhlith yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru o fewn yr ystod eang o sefyllfaoedd ecwmenaidd lleol y mae'r Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru yn gysylltiedig â hwy;
- Bydd y gweinidogion hynny yn gallu cynnig, fel y bo'n briodol ym mhob cyd-destun lleol, yr ystod lawn o weinidogaeth ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau sydd ar gael o fewn rheoliadau pob un o'r Eglwysi Cyfamodol fel y maent ar hyn o bryd;

The following are key aspects to renew the sharing and exchange of ministry:

- those ordained ministers of Word and Sacraments who are fully recognized by their churches may share ministry across the other Covenanted Churches in a local ecumenical setting in accordance with current regulations. In other words, the key principle here is that a minister recognized for service within one denomination can be received by all the other ecumenical partners (as appropriate to the local context) for service within a particular local ecumenical setting;
- we encourage formal agreements of exchange among the Covenanted Churches in Wales within the wide range of local ecumenical settings in which the Covenanted Churches in Wales are involved;
- Ministers are able to offer, as appropriate in each local context, the range of ministry of Word and Sacraments that is possible within the regulations of each of the Covenanted Churches as they currently stand;

- bydd cydnabod gweinidog unigol yng nghyd-destun unrhyw gytundeb lleol yn ddilys tra bod y gweinidog yn parhau i wasanaethu'r cyd-destun ecwmenaidd lleol lle caiff y weinidogaeth ei harfer. Bydd cydnabyddiaeth o'r fath yn dod i ben pan fydd y gweinidog yn symud ymlaen i sefyllfa arall nad yw'n rhan o gytundeb ecwmenaidd lleol. Mewn geiriau eraill, mae rhannu a chyfnewid gweinidogaeth yn benodol i benodiad lleol arbennig;
- bydd gweinidogion y Gair a'r Sacramentau o un enwad sy'n gwasanaethu o fewn eglwysi enwadau eraill yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau ariannol, disgyblaethol a/neu gyfreithiol yn unol â'r hyn a benderfynwyd ar gyfer pob sefyllfa leol;

- the recognition of an individual minister within the context of any local agreement will be valid while the minister remains within the service of the local ecumenical setting in which the ministry is exercised. Such recognition will terminate when the minister moves on to another situation that is not part of a local ecumenical agreement. In other words, exchange and shared ministry is specific to a particular local appointment;
- Ordained ministers of Word and Sacraments of one denomination serving in the context of churches of other denominations will be accountable to the churches' financial, disciplinary and/or legal provisions as determined for each local setting;

Bydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yn gyfrifol am gyd-drefnu'r cynlluniau hyn (yn arferol, drwy weithgor wedi ei sefydlu oddi fewn i'r Comisiwn) trwy gyflawni'r cyfrifoldebau canlynol:

- i ymgymryd â'r cyfrifoldeb o adnabod sefyllfaoedd ecwmenaidd lleol lle gellid ystyried rhannu gweinidogaeth;
- mewn ymgynghoriad ag arweinwyr eglwysig lleol a chenedlaethol, i ysgogi a chefnogi cychwyn a sefydlu cynlluniau lleol i rannu gweinidogaeth;
- galluogi ymgynghori ymhlith y rhai sydd â chyfrifoldeb dros oruchwylio gweinidogaeth yn eu heglwysi, parthed gwneud a diweddu penodiadau i'r gweinidogaethau hyn;
- ystyried agweddau penodol y weinidogaeth ordeiniedig y byddai'r cytundeb lleol yn ymdrin â hwy;
- annog, meithrin a chefnogi'r rhai sy'n ymwneud â'r gweinidogaethau hyn ac ymateb i unrhyw heriau a phroblemau a godir o fewn cyd-destunau lleol;
- trefnu adolygiadau rheolaidd o bartneriaethau mewn gweinidogaeth a sefydlwyd o fewn y cynllun;
- bod yn effro i'r cysylltiadau rhwng y cynllun hwn a'r cynllun Gweinidogaeth Bro a sefydlwyd yn wreiddiol ymhlith yr enwadau Cymraeg ond sydd bellach wedi'i ymestyn i gynnwys eglwysi eraill yng Nghymru;

The Commission of the Covenanted Churches will be responsible for co-ordinating such agreements, (normally, through a working group established within the Commission) by undertaking the following responsibilities:

- identifying local ecumenical settings where shared ministry could be considered;
- in consultation with local and national church leaders, will encourage and support the setting up and inauguration of local schemes of shared ministry;
- This will involve enabling consultation among those who have responsibility for the oversight of ministry within their churches, with regard to making and terminating our appointments to such shared ministries;
- exploring the specific aspects of ordained ministry that any local agreement would cover;
- encouraging, nurturing and supporting those engaged in these ministries and to respond to any challenges and problems raised within local contexts;
- arranging for regular reviews of partnerships in ministry set up within the scheme;
- being alert to the interconnections between this scheme and the long-established Community Ministry scheme initiated among the Welsh language denominations but now extended to include other churches in Wales;

- mewn ymgynghoriad ag eraill, i gytuno ar y broses o derfynu cynlluniau lleol o'r fath, pan fydd adolygiad yn argymell mai dyma fyddai'r cam priodol i'w gymryd;
- dod â chynigion ar gyfer unrhyw ddiwygio o'r Canllawiau ar gyfer Rhannu Gweinidogaeth i'r Comisiwn gyda golwg ar eu gweithredu gan yr Eglwysi Cyfamodol fel sy'n briodol;
- argymell a chyfrannu at raglenni hyfforddi, ar y cyd â cholegau diwinyddol, cynlluniau hyfforddi a'r Rhwydwaith Swyddogion Ecwmenaidd a Rhyng-grefyddol;
- adrodd yn rheolaidd i Gomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol.

- in consultation with others, co-ordinating the process of termination of such local schemes, when a review recommends that this would be the appropriate action to take;
- bringing proposals for any revision of the Guidelines for shared Ministry to the Commission for action by the Covenanted Churches as appropriate;
- proposing and contributing to training programmes, in collaboration with theological colleges and training schemes and the Ecumenical and Interfaith Officers' Network;
- reporting regularly to the Commission of the Covenanted Churches.

4. Sylfaen Ddiwinyddol

Nid yw rhannu gweinidogaeth yn y modd hwn yn awgrymu o reidrwydd fod cytundeb llawn ymhlith yr Eglwysi hyn ar ystyr a natur y weinidogaeth. Fel arfer, disgwylir i weinidogion wasanaethu o fewn i batrymau a strwythurau yr holl eglwysi sy'n cymryd rhan yn y bartneriaeth leol, fel y bo'n briodol. Byddai'n rhaid i delerau, amodau a gofynion cyfreithiol unrhyw drefniant o'r fath gael eu cytuno yn unol â'r cyd-destun lleol penodol.

Mae angen tanlinellu agweddau allweddol o'r caniatâd hwn:

- Nid ydym yn tybio bod cytundeb llawn ymhlith yr Eglwysi Cyfamodol ar natur a phwrpas y weinidogaeth, ac nid ydym yn rhagweld y dylid ceisio cytundeb llawn o'r fath er mwyn medru gweithredu'r cynigion hyn ar gyfer rhannu gweinidogaeth. Fodd bynnag, credwn fod safbwynt y gwahanol eglwysi ar y materion hyn ar hyn o bryd yn sylfaen ddigonol ar gyfer yr hyn sy'n cael ei gynnig. Rydym yn troedio i'r dyfodol gydag amrywiaeth o ddealltwriaeth o weinidogaeth ond yn unedig yn ein hymrwymiad i arfer o weinidogaeth sy'n gwasanaethu ein hamcan cyffredin.

4. Theological Foundations

This invitation does not imply full agreement among the Covenanted Churches on the meaning and nature of ministry. Ministers are normally expected to serve within the patterns and structures of all the churches participating in the local setting, as appropriate. The terms, conditions and legal requirements of any ongoing arrangement would need to be agreed according to each local context.

Key aspects of this permission need to be underlined:

- We do not assume that there is full agreement among the Covenanted Churches on the nature and purpose of ministry nor do we anticipate that such full agreement be sought in order to further these proposals for shared ministry. We believe, however, that where the churches now stand on these matters provides an adequate foundation for what we propose. We go forward with a diversity of understandings of ministry but united in our commitment to a practice of ministry that serves our shared missional purpose.

- Ar hyn o bryd, mae'n bwysig hefyd danlinellu'r hyn nad yw'r cynigion hyn yn anelu at ei gyflawni. Mae'r ffocws ar weinidogaeth ordeiniedig y Gair a Sacramentau (h.y. gweinidogaeth presbyter). Nid ydym yn ceisio mynd i'r afael â chwestiwn gweinidogaeth esgobaethol (er ein bod ni'n cydnabod, wrth gwrs, y bydd gan y rheini a elwir i arfer gweinidogaeth esgobaethol yn ei ffurfiau amrywiol yn yr eglwysi rôl allweddol wrth hyrwyddo a meithrin rhannu gweinidogaeth ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau). Rydym hefyd yn cydnabod nad yw gweinidogaeth 'diacon' yn ei ffurfiau amrywiol wedi'i chynnwys yn y cynigion hyn (er bod y Comisiwn wedi ymrwymo i ymgymryd â gwaith pellach ar y mater hwn yn y dyfodol). Fel gyda gweinidogaeth esgobaethol, rydym yn llwyr gydnabod y bydd partneriaeth â'r rhai a elwir i weinidogaeth 'diacon' yn yr eglwysi yn agwedd allweddol ar arfer gweinidogaeth sy'n gwasanaethu her ein cyfnod.

- At this stage, it is important also to underline what these proposals do not aim to achieve. The focus is on the ordained ministry of Word and Sacraments (i.e. the presbyterial ministry). We do not seek to address the question of episcopal ministry (although we recognise, of course, that those who are called to exercise episcopal ministry in its various forms within the churches will have a key role in giving permission for and nurturing any exchange of ordained ministry of Word and Sacraments). We recognise also that diaconal ministry in its various forms is not included within these proposals (although the Commission is committed to undertake further work on this matter in the future). As with episcopal ministry, we fully recognise that partnership with those called to diaconal ministry within the churches will be a key aspect of the practice of a ministry that serves the missional challenge of our time.

5. Cyd-destun

Mae'r Cyfamod Cymreig bob amser wedi'i osod yng nghyd-destun cenhadaeth a thystiolaeth. Gwelwyd undod dyfnach fel un o arwyddion symbolaidd a phragmatig cenhadaeth a rennir 'i'r wlad a'r bobl hyn'. Rhaid i genhadaeth o'r fath ganolbwyntio ar y gymuned. Ei phrif nod yw dod â iachâd ac adnewyddiad y Deyrnas. Yn y cyd-destun hwn, bydd partneriaethau lleol rhwng yr eglwysi mewn addoli, tystiolaeth a gwasanaeth, yn ysbrydoliaeth ac yn ysgogiad i archwilio posibiliadau rhannu gweinidogaeth. Yn wir, ein gobaith yw y gall y cynigion hyn fod symbyliad i ddatblygu cytundebau ecwmenaidd lleol fydd yn cynnig y cyd-destun a'r strwythur angenrheidiol ar gyfer adfywio ymdrechion ecwmenaidd a chyfnewid gweinidogaeth.

Fodd bynnag, nid yw'r Eglwysi Cyfamodol yn bartneriaid â'i gilydd yng Nghymru ac o fewn cenhedloedd y Deyrnas Unedig yn unig, maent hefyd yn bartneriaid o fewn yr Eglwys fyd-eang wrth iddynt weithio gyda'i gilydd mewn cenhadaeth a thystiolaeth trwy ystod o bartneriaethau cenhadaeth fyd-eang. Mae'r persbectif ehangach hwn yn ehangu gweledigaeth yr eglwysi ac yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o heriau a phosibiliadau rhannu gweinidogaeth sy'n gwasanaethu galwad yr eglwysi i dystiolaeth a gwasanaeth.

5. Context

The Welsh Covenant has always been set within the context of common mission and witness. Deeper unity has been seen as one of the symbolic and pragmatic signs of a shared mission 'to this land and people'. Such mission has to be community focused. Its primary aim is to bring the healing and transformation of the Kingdom. In this context, local collaboration between the churches in worship, witness and service, will be an inspiration and an impetus for renewing our understanding of the possibilities of shared ministry. Indeed, it is our hope that this initiative may provide the impetus to develop new local ecumenical agreements that provide the necessary context and structure for renewed ecumenical endeavour and exchange of ministry.

However, the Covenanted Churches are not only partners with one another within Wales and within the nations of the United Kingdom but they are also partners within the worldwide church as they work together in mission and witness through a range of global mission partnerships. This wider perspective broadens the churches' vision and enriches their understanding of the challenges and possibilities of a shared ministry that serves the churches' call to witness and service.

Mae'r cyd-destun lleol, cenedlaethol a byd-eang hwn yn hanfodol i ddealltwriaeth yr Eglwysi Cyfamodol o bartneriaeth mewn gweinidogaeth. Rhaid deall her rhannu gweinidogaeth yn y cyd-destun eang hwn o rannu adnoddau mewn pobl, traddodiadau ac arfer wrth wasanaethu cenhadaeth. Er bod y cynigion hyn yn cael sylw yn benodol gan yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, rydym yn cydnabod bod partneriaethau a pherthnasoedd eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, sydd yr un mor bwysig i rai o'r eglwysi dan sylw. Yn hyn o beth, byddai Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor Eglwysi Rhyddion Cymru a'r eglwysi sy'n aelodau ohonynt a'u sefydliadau cysylltiedig yn hollbwysig wrth ddatblygu rhannu gweinidogaeth yng Nghymru ymysg yr Eglwysi Cyfamodol.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod gan berthnasoedd a phartneriaethau eraill oblygiadau pwysig parthed unrhyw gynllun ar gyfer rhannu gweinidogaeth yng Nghymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn arbennig o ymwybodol o'r Cyfamod rhwng Eglwys Lloegr ac Eglwys Fethodistaidd Prydain Fawr. Er nad yw hyn, mewn un ystyr, yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar berthynas Eglwysi â'i gilydd yng Nghymru, mae'n anochel - yn wir, yn ddymunol – bod goblygiadau unrhyw gytundeb rhwng Eglwys Lloegr a'r Eglwys Fethodistaidd parthed perthynas rhwng yr Eglwys Fethodistaidd a'r Eglwys yng Nghymru, yn ogystal â'r partneriaid eraill, yn cael ystyriaeth lawn wrth ddatblygu'r cynigion presennol. Fodd bynnag, ni all y memorandwm hwn gynnig unrhyw fanylion ar y posibiladau hyn tan y bydd canlyniadau'r drafodaeth yn Lloegr yn hysbys a'i hoblygiadau wedi eu harchwilio ymhellach.

This local, national and global missional context is fundamental to the Covenanted Churches' understanding of partnership in ministry. The challenge of shared ministry has to be understood within this broad context of sharing resources of people, traditions and practice in the service of mission. Whereas these proposals are addressed specifically to the Covenanted Churches in Wales, we recognize that other partnerships and relationships, both locally and nationally, are equally important for some, if not all, of the churches involved. In this regard, Cytûn: Churches Together in Wales and the Free Church Council for Wales and their member churches and related organizations would be centrally important in developing exchange of ordained ministry within Wales among the Covenanted Churches.

We are also aware that other relationships and partnerships have important implications for the development of shared ministry within Wales. In this context, we are particularly conscious of the Covenant between the Church of England and the Methodist Church of Great Britain. Whereas, in one sense, this does not have any direct effect on relationships within Wales, it is inevitable – indeed, desirable – that the consequences of any agreement between the Church of England and the Methodist Church for relationships between the Methodist Church and the Church in Wales, as well as its other partners, need to be fully taken into account in developing the current initiative. However, this memorandum cannot offer any detail on these possibilities until the results of the debate within England are fully known and its implications further explored.

© Comisiwn Yr Eglwysi Cyfamodol
yng Nghymru 2020

Gyda diolch i'r Parch Noel Davies a
Grŵp Ffydd a Threfn y Comisiwn am eu
gwaith yn llunio'r ddogfen a Esgob
Gregory K. Cameron, Cadeirydd y
Comisiwn am y rhagair.

Golygyddion: Peredur Owen Griffiths
a'r Parch Robert John Owen Griffiths

Cyhoeddwyd gan Comisiwn Yr
Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru

Yst 3.3, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan,
Caerdydd CF24 0BL

© The Commission of the Covenanted
Churches in Wales 2020

With thanks to Rev. Noel Davies and
the Commission's Faith and Order
Group for their work in compiling the
document and Bishop Gregory K.
Cameron, chair of the Commission for
the foreword.

Edited by: Peredur Owen Griffiths and
Rev. Robert John Owen Griffiths

Published by The Commission of the
Covenanted Churches in Wales

Room 3.3, Hastings House, Fitzalan
Court, Cardiff CF24 0BL